

## BTEC Certificate in Leadership Through Sport Level 2



### Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn wedi'i ddylunio i gyfoethogi eich sgiliau mewn amrywiaeth o chwaraeon. Dyma'r cwrs i chi os ydych yn gweithio, neu eisiau gweithio, mewn rôl arwain ym maes chwaraeon.

### Dyma'r cwrs i chi os...

...mae gennych ddiddordeb mewn symud ymlaen at y Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Chwaraeon

...mae gennych ddiddordeb cryf mewn chwaraeon

...rydych yn awyddus i weithio mewn rôl arwain ym maes chwaraeon

...rydych eisiau dysgu am yr agweddau gwahanol ar arwain chwaraeon

... rydych eisiau ennill cymhwyster Lefel 2 a gydnabyddir yn genedlaethol



# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Beth fyddaf yn ei wneud?

Ymhlith y pynciau a astudir ar y cwrs hwn mae:

Y Corff mewn Chwaraeon  
Iechyd, Diogelwch ac Anafiadau  
Paratoi ar gyfer Chwaraeon  
Arweinyddiaeth Chwaraeon  
Anafiadau Chwaraeon ac Amrywiaeth o Chwaraeon Ymarferol  
Seicoleg Chwaraeon  
Digwyddiadau Chwaraeon  
Dysgu yn yr Awyr Agored

Byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis cymorth cyntaf, gweithgareddau awyr agored, timau pêl-droed, pêl-rwyd neu rygbi a digwyddiadau. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gwblhau cymhwyster ychwanegol drwy Sports Leaders.

Asesir y cwrs drwy waith cwrs ymarferol ac ysgrifenedig. Bydd dulliau asesu'n cynnwys ymchwil unigol, gwaith grŵp, gwaith prosiect, cyflwyniad llafar, arddangosfeydd gweledol, aseiniadau ysgrifenedig a goruchwyllo eich perfformiad. Wedi i chi ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Tystysgrif Lefel 2 mewn Arwain Drwy Chwaraeon  
Tystysgrif Lefel 2 mewn Datblygiad Personol a Chyflogadwyedd  
Dyfarniad Lefel 2 mewn Dysgu yn yr Awyr Agored  
Gweithgareddau Sgiliau  
Mathemateg a Saesneg (os nad oes gennych Radd C neu uwch ar lefel TGAU)  
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau.

## Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, byddwch angen o leiaf 4 TGAU Gradd D neu uwch, gan gynnwys mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol sy'n cynnwys un ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg Gradd D neu uwch.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ac mae cyfranogiad ymarferol yn hanfodol i gwblhau'r cwrs hwn.

Apply online at [www.colegwent.ac.uk](http://www.colegwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus, Diploma mewn Hyfforddi Ffitrwydd neu waith mewn diwydiant sy'n gysylltiedig â chwaraeon.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd disgwyl i ddysgwyr brynu cit fel amod o'u lle ar y cwrs hwn. Bydd yn costio oddeutu £75 - £100.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

